

**Siambr Fasnach a Thwristiaeth**  
**Bro Ffestiniog**  
**Chamber of Commerce & Tourism**  
**Cofnodion / Minutes for 07/01/13**

**Presennol:** Andrew Roberts – Llechwedd, Roger Clear – Taurus Designs, Bob Cole – Cyngor Tref Ffestiniog / Blaenau Ymlaen, Ann Cole – Blaenau Ymlaen, Meirion Ellis – Cambrian News, Debbie & Malcolm Jones – Debbie’s Cake’ole, Alister Haveron – Dolawel, John Whitehead – Bryn Elltyd, Kevin Baldwin – DeNiros, Chris & Iris Fosbury– Efion Stores, Clare Britton – Rheilffordd Ffestiniog, Gaile Weir – Caffi’r Bont, Richard Thomas – Snowdonia Slate, Huw Jenkins – Campbell’s Cottage, Zoe Pritchard – Parti 4, Dylan Jones & Eimir Griffith – Heddlu Gogledd Cymru, Paul Thomas – Cyngor Gwynedd, Rhiannon & Alwyn Jones – Brethyn Blaenau, Pat Tocker – Baby Shop, Steve & Linda Chesworth – Amazing Drapes

1. **Ymddiheuriadau** – Mandy Williams-Davies - Cyngor Tref Ffestiniog / Cyngor Gwynedd, Owain Williams - NatWest, Carwyn Jones – Y Siop Werdd, Ceri Cunnington – Antur’Stiniog, Sue Roberts – Sue’s Books  
Croesawodd Andrew bawb.
2. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a Materion yn codi:** Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir. Materion yn codi i gyd ar y rhaglen.
3. **Heddlu** - Dywedodd Dylan Jones wrth yr aelodau bod staff yn dychwelyd i lefel oeddent yn ôl cyn mis Mai 11. Mae gwahoddiad i bobl alw i mewn i orsaf yr Heddlu ar ddydd Gwener rhwng 17.00 - 19.00, i roi gwybod am rywbeth neu wneud ymholiadau. Ynglŷn â materion byrgleriaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae wedi ymrwymo i reolau cyfrinachedd. Soniodd Steve o Amazing Drapes ynglŷn a materion sbwriel. Dywedodd Paul fod CCC ar Rhaglen cyfarfod y Cyngor Tref dydd Iau, a bod mentioned CCTV, a bod boi o Ynys Môn yn gwneud y gwaith newydd. Gofynnodd Bob y cwestiwn ynglŷn â chymryd llun o bobl yn camymddwyn, a’r ateb oedd na yn bendant, ond os oeddent yn eu hadnabod i ddweud wrth yr Heddlu. Soniodd Debbie am y defnydd o gyffuriau ym mynwent Bethesda, Dywedwyd iddi alw 101 gan ellir gwneud hyn yn anhysbys. Gofynnodd Paul a oedd yr Heddlu yn ymwybodol os oedd benthycwyr arian didrwydded yn gweithredu yn yr ardal. Dywedodd yr Heddlu nad oeddent ond i roi gwybod iddynt. Mae’r Heddlu yng nghyd weithio gyda’r Cyngor Tref ynglŷn â Manod. Dywedodd Bob, er gwaethaf atgoffa’r ffaith ynglŷn â biniau yn y Manod, mae yno 2 ond nid o flaen siop Debbie. Gofynnodd Paul sut mae hyn yn cymharu â threfi eraill, ‘roedd yr ymateb yn gadarnhaol. Canmolodd Dylan y bobl ifanc eu bod yn glod i’r dref ac i’w hunain a bod nifer llai i’w delio a hwy llawer llai na llefydd eraill.
4. **Adroddiad Aelodaeth** - Ymddiheurodd Zoe I’r aelodau newydd am beidio â chysylltu â hwy. ‘Roedd amgylchiadau gwaith wedi ei rhwystro i allu bod o gwmpas yn ystod y dydd. Mae aelodaeth ar lein yn iawn rŵan, mae PayPal yn rhedeg a gellir aelodau newydd ei ddefnyddio ynghyd ag adnewyddu aelodaeth hefyd, neu gellir talu ag arian parod neu siec I Iris yn Efion Stores. Dywedodd Zoe wrth yr aelodau newydd eu bod wedi body n gweithio ar y gwefan fel y body n gweithio’n dda, hefyd tynnodd sylw at y dudalen weblyfr. Mae Delwedd yn parhau i ddiweddarau popeth ond dylai fod yn eu dwylo nhw erbyn hyn. Bysai yn cysylltu â Pryderi ynglŷn â Delwedd a PayPal.
5. **Adroddiad y Trysorydd** -Iris Fosbury o Eifion Stores yw’r trysorydd newydd a dosbarthodd adroddiad yn dangos mantoli o £168.78. Nid oedd ganddi adroddiad wedi

August'12, cynigiodd Alister I alw ar Gill I ofyn am gyfriflenau ac i gael gwybod os oedd unrhyw daliadau drwy PayPal.

6. **Gwefan** - Dywedodd Alister wrthym Paul wedi gwirfoddoli i gyfieithu darn roedd wedi ysgrifennu i'r tudalen safle . Gwnaiff hefyd atgoffa Delwedd ynglŷn â hyfforddiant a'r gwaith diweddarau.
7. **Blaenau Ymlaen** - Adfywiad - Dywedodd Bob wrthym fod y tendrau allan ar gyfer y toiledau a gobeithir y byddent wedi eu cwblhau erbyn Gwanwyn' 13. Fe fydd bin sbwriel yn safle olygfa. Bydd cerflun gan David Nash I'w godi yn y fynedfa orllewinol o fewn y ddeufis nesaf. Dywedodd Chris bod problemau gyda'r dreiniau, cytunodd Bob i ffonio Balfour Beatty a'r Adran Briffyrdd. Hefyd dywedodd Bob wrth yr aelodau bod y Gymdeithas Hanes wedi bod yn ymwneud a chreu paneli hanes y dref a byddent i'w rhoi o amgylch y dref. Rhoddodd Andrew ddiolch i bawb oedd wedi cyfrannu i wireddu'r weledigaeth. Cytunodd Andrew i gynrychioli'r Siambr mewn cyfarfod ynglŷn â sefydlu cwmni datblygu cymuned dydd Llun 14eg o Ionawr.
8. **Denu pobl o Llandudno** - Cafodd Paul gyfarfod cyn y Nadolig ynglŷn â thrafnidiaeth gyda threnau Arriva ac eraill. Y canlyniad yw fydd cysylltiadau i'w cryfhau yng Ngwynedd + gorsaf Llandudno yn cael ei uwchraddio a ma' hi'n fodlon hysbysebu ymweld â'r Blaenau ar eu sgriniau+ dosbarthu taflenni. Bu i Ann atgoffa'r aelodau ei bod wedi cylchredeg drwy e-bost yr wybodaeth Cyswllt Trafnidiaeth + Cynllun Gweithredu Marchnata'r dref a gafodd gan Pryderi, ac iddynt eu ddarllen a gwneud sylwadau ac awgrymiadau.
9. **Twristiaeth** -ysgrifennodd Huw erthygl, 'Newid mawr yn Blaenau', y gellir eu defnyddio ar gyfer marchnata, mae ar ei flog ar y wefan, bydd yn e-bostio Ann fel y gall hi e-bostio pob aelod, ar sut i ddod o hyd iddo. Talodd Blaenau Ymlaen £500 i gylchgrawn Twristiaeth Coets i hyrwyddo Blaenau, a chynigiodd Ian Chippie + Tŷ Gorsaf prydau bwyd rhad ac am ddim ar gyfer y gyrwyr bws. Dywedodd Paul wrthym am daith o amgylch y dref sy'n cael ei gynllunio, i hyrwyddo + tynnu sylw pobl: ee hollti llechi / siaradwyr. Bydd Paul yn trafod materion gwirio taflenni gyda Pryderi. Soniodd Huw am raglen 'Iolo's great Welsh Parks' ar BBC1 am 5.35 ar y Sul a bydd ef ar y rhaglen yr wythnos yma.
10. **CCB** - Cynhelir y cyfarfod dydd Llun 4ydd o Fawrth' 13. Wnaiff Ann e-bostio aelodau gyda'r ffurflenni enwebu, ac atgoffwyd aelodau bod angen caniatâd enwebyddion yn gyntaf. Bydd yr holl enwebyddion i'w dychwelyd i Ann erbyn 25ain o Chwefror' 13. Rhoddodd y cadeirydd, Andrew, ac Ann, yr ysgrifennydd rybudd na fyddent yn sefyll eto.
11. **UFA** - \*Dywedodd Paul wrth yr aelodau nad oedd Gwynedd am ddarparu parcio di dal. Cododd Gaile y mater o raciau beic, dywedodd Bob wrthi ble 'roeddent gan fod nifer ohonynt o amgylch y dref. \*Soniodd Paul hefyd ei fod yn edrych i mewn i'r posibilrwydd i gael llawr sglefrio rhew yn Diffwys erbyn Nadolig' 13, y gost hyd at £15,000 - caiff y ffigyrau gan Bwllheli a gafodd un y llynedd.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf a CCB dydd Llun 4ydd o Fawrth 2013 @ 7pm lleoliad Siambr y Cyngor , 5 Stryd Fawr**